


Wildlife Explorer Trail

Llwybr Antur Bywyd Gwylt

Roath Park

Parc y Rhath



Follow the maps inside to find and collect each of the 24 rubbing plaques in and around Roath Park Lake and the Botanical Garden. There are two Wildlife Explorer Trails to choose from. You can use the drawings to colour in, plus complete the activities and games too!

Dilynwch y mapiau i ddod o hyd i bob un o'r 24 o blaciau rwber o amgylch Llyn Parc y Rhath a'r Ardd Fotaneg. Gallwch ddewis o ddau Llwybr Antur Bywyd Gwylt. Gallwch liwio'r lluniau, a chwblhau'r gweithgareddau a'r gemau hefyd!



CARDIFF
CAERDYDD

Roath Park opened its doors in 1894 and has since become one of Cardiff's most popular parks. There is lots to see and do, including a Conservatory, a large boating lake, a Botanical Garden and much much more.

Agorodd Parc y Rhath ei ddrysau ym 1894 ac erbyn hyn mae'n un o barciau mwyaf poblogaidd Caerdydd. Mae llawer i'w weld a'i wneud yma, gan gynnwys Tŷ Gwydr, llyn mawr, Gardd Fotaneg a llawer, llawer mwy.

Getting There Cyrraedd Yma

By Foot / cycle via Lake Roads; North, East and West.

Ar droed / beic ar hyd Lake Road North, East a West.

By Bus via Lake Road West and East, and Ty Draw Road. Visit www.cardiffbus.com

Ar fws ar hyd Lake Road West ac East, a Tŷ Draw Road. Ewch i www.bwscaerdydd.com

By train for Heath High and Low Level stations. Visit www.nationalrail.com

Ar drên i orsafoedd Lefel Uchel y Mynydd Bychan a Lefel Isel y Mynydd Bychan. Ewch i www.nationalrail.com

By Car for Roath via Ty Draw Road, Mackintosh Place and Lake Road North. Roadside parking available.

Mewn car i'r Rhath, ar hyd Tŷ Draw Road, Lake Road North a Fair Oak Road. Ceir lleoedd parcio ar hyd y ffordd.



Key / Allwedd

-  Train Station / Gorsaf Drenau
-  Bus Stops / Safleoedd Bws
-  Conservatory / Tŷ Gwydr
-  Nant Fawr Trail / Llwybr Nant Fawr
-  Boat House / Cwchdy
-  Lighthouse / Goleudy
-  Cafe / Caffi

Opening times
Amseroedd agor

Autumn/Winter/Spring
Hydref/Gaeaf/Gwanwyn
10.30am – 3.00pm

Summer *Haf*
10.30am – 6.00pm



Explore inside *Dewch i mewn i weld*

Tropical Rainforest Plants
Planhigion Fforestydd Glaw Trofannol

Exotic Flower Displays *Arddangosfeydd Blodau Egsotig*

Koi Carp *Carp Koi*

Terrapins *Terapiniaid*

Waterfall Feature *Rhaeadr*

Whistling Ducks *Hwyaidd Chwibanog*


Plant Sales *Planhigion ar Werth*



Key / Allwedd

- 12 Wildlife Explorer Trail / Llwybr Antur Bywyd Gwylt
- Path Network / Rhwydwaith llwybrau
- Nant Fawr Trail / Llwybr Nant Fawr
- Rose Garden / Gardd Rosod
- Play Area / Ardal Chwarae
- Boat House / Cwchdy
- Conservatory / Tŷ Gwydr
- Lighthouse / Goleudy
- Cafe / Caffi
- Toilet / Toiled
- Information Board / Bwrdd Gwybodaeth

1

2

3

4


5

6

7


8


9

10

11

12






Hazel Nut


Cneuen Gollen

I am the nut of the hazel tree. Animals like squirrels and jays collect us to help them survive the cold winter. Can you find any hazelnuts on the ground today?

Fi yw cneuen y gollen. Mae'r wiwer ac aderyn sgrech y coed yn ein casglu i'w helpu i oroesi'r gaeaf oer. Allwch chi ddod o hyd i unrhyw gnau cyll ar y llawr heddiw?



Make rubbing of the Hazel Nut here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Gneuen Gollen




Ginkgo

Ginkgo

I usually live a long way from here in China. I have been found in fossils dating back 270 million years. Look for my unusual fan shaped leaf.

Rydw i fel arfer yn byw yn bell, bell i ffwrdd yn Tsieina. Mae pobl wedi dod o hyd i mi mewn ffosiliau sy'n dyddio'n ôl 270 miliwn o flynyddoedd. Chwiliwch am fy nail unigryw sy'n edrych fel ffan.



Make rubbing of the Ginkgo leaf here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r ddeilen Ginkgo




Rose flower


Rhosyn

Our rose beds in Roath Botanical Garden have nearly one hundred different varieties of rose. We provide a superb splash of colour each summer. Spend some time sniffing our beautiful perfumes.

Mae bron i 100 o wahanol fathau o rosod yng Ngardd Fotaneg y Rhath. Rydyn ni'n dod â lliwiau llachar i'r ardd bob haf. Dewch draw i aroglu ein persawr hyfryd.



Make rubbing of the Rose Flower here
Rhwbwch greon yma i greu llun o Rosyn



Palm tree
Coeden balmwydd

I am a tree which mostly enjoys warm tropical climates. Our leaves are large and evergreen, which means we have leaves throughout the year. People have used us for food and oils for more than 5000 years.

Coeden ydw i sy'n mwynhau hinsawdd drofannol gynnes. Mae fy nail yn fawr a bytholwyrdd, sy'n golygu bod gennyf ddail drwy gydol y flwyddyn. Mae pobl wedi bod yn fy nefnyddio am fwyd ac olew am dros 5000 o flynyddoedd.

Make rubbing of the Palm Tree here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Goeden Balmwydd




Grey wagtail
Siglen Lwyd

I am a slim wagtail with a grey back and long tail. Like other wagtails, I frequently wag my tail. I love eating insects. Look for me on rocks in streams and at lake edges.

Rwy'n aderyn bach â chefn du a chynffon hir. Fel y siglennod eraill, rwy'n hoffi siglo fy nghynffon. Rwy'n dwlu ar bryfed. Edrychwch amdanaf ar greigiau mewn afonydd ac ar lannau'r llyn.

Make rubbing of the Grey Wagtail here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Siglen Lwyd.




Pine cone
Mochyn coed

I am the cone-shaped woody fruit of a pine tree. I have scales which open to release my seeds. My seeds are then spread by the wind.

Fi yw ffrwyth y binwydden, ac rwy'n edrych fel côn. Mae fy nghan yn agor i ryddhau fy hadau. Yna mae fy hadau'n cael eu lledaenu gan y gwynt.

Make rubbing of the Pine cone here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Mochyn Coed

Lighthouse Goleudy



I am the Scott Memorial Lighthouse, a well known landmark in Roath Park Lake. I was built in 1915 in memory of Captain Scott's unlucky expedition to the Antarctic in 1910.

Fi yw Goleudy Coffa Scott. Rwy'n un o dirnodau enwog Parc y Rhath. Cefais fy adeiladu ym 1915 er cof am daith drychinebus y Capten Scott i'r Antarctig ym 1910.

Make rubbing of the Lighthouse here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Goleudy

Squirrel Gwiwer



We love woodlands like these where we collect our favourite foods; Hazelnuts, acorns, tree bark, fungi, buds, leaves, and flowers. We make our nests which are called drays out of twigs, leaves and dried grass.

Rydyn ni'n dwlu ar goetiroedd fel hyn lle gallwn gasglu ein hoff fwydydd; cnau cyll, mes, rhisgl coed, ffwng, blagur, dail a blodau. Rydyn ni'n gwneud nythod allan o frigau, dail a glaswellt sych.

Make rubbing of the Squirrel here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Wiwer


Speckled Wood Butterfly Gweirlöyn Brych



I started off life as a tiny egg and quickly grew to be a caterpillar. When I was ready, I built a cocoon around myself and emerged as a beautiful butterfly! I now enjoy fluttering about in the sunlight that comes down through the trees in the wood.

Fel wy bychan y dechreuais fy mywyd cyn tyfu'n gyflym i fod yn lindysyn. Pan oeddwn i'n barod, adeiladais gocŵn o'm cwmipas cyn dod ohono fel pili-pala prydferth! Rwy'n mwynhau hedfan yn yr heulwen sy'n sgleinio drwy'r goedwig.


Make rubbing of the Speckled Wood Butterfly here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Gweirlöyn Brych



Oak Trees Coed Derw

We are home to lots of animals like birds and insects. Animals like squirrels eat our fruit which are called acorns. Can you find any acorns on the ground today?

Rydyn ni'n gartref i lawer o anifeiliaid a phryfed. Mae anifeiliaid fel gwiwerod yn bwyta ein ffrwythau a elwir yn fes. Allwch chi ddod o hyd i fes ar y llawr heddiw?




Make rubbing of Oak Tree here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o Goeden Dderw



Heron Crëyr Glas

My favourite foods are fish, frogs and insects but I also like the occasional duckling. I fly quite slowly and pull my neck back into an S-shape. Be very quiet or you'll scare me and I'll fly away.

Fy hoff fwydydd yw pysgod, brogaod a phryfed ond rydw i hefyd wedi cael blas ar hwyaid bach. Rydw i'n hedfan yn gymharol araf ac yn cadw fy ngwddf mewn siâp S. Byddwch yn dawel iawn neu bydda i'n cael braw ac yn hedfan i ffwrdd.




Make rubbing of the Heron here
Gwnewch rwbïad o'r Crëyr Glas fan hyn



Conservatory Tŷ Gwydr

I was built in 1974 and house a collection of tropical rainforest plants and exotic flowers. Come inside and explore! Look out for our resident whistling ducks. Feed the koi carp and terrapins. Search for stick insects.

Cefais fy adeiladu ym 1974 ac rwy'n gartref i gasgliad o blanhigion trofannol a blodau egsotig. Dewch mewn i weld! Chwiliwch am ein hwyaid chwibanog a phryfed y brigyn. Bwydwch y carpiâu koi a'r terapiniaid.



Make rubbing of the Conservatory here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Tŷ Gwydr

Sssssh!

Sssssh!
Try to be as quiet as possible so you don't scare the animals away

Sssssh!
Ceisiwch fod mor dawel â phosibl rhag ofn i chi ddychryn yr anifeiliaid

What else can you see?

Look for each of these animals and count how many you can find!

Beth arall allwch chi ei weld?

Chwiliwch am bob un o'r anifeiliaid hyn a chyfrwch faint y gallwch chi ddod o hyd iddynt!

	Swan / Alarch
	Squirrel / Gwiwer
	Grey Wagtail / Siglen Lwyd
	Heron / Crëyr Glas
	Coot / Cotiar
	Great Spotted Woodpecker / Y Gnocell Fraith Fwyaf
	Cormorant / Bilidowcar


Please help me find my way home!
Helpwch fi i fynd adref!

Grey Wagtail /
Siglen Lwyd

Cormorant /
Bilidowcar

Squirrel /
Gwiwer

Speckled Wood Butterfly /
Gweirlöyn Brych



Key / Allwedd

12 Wildlife Explorer Trail /
Llwybr Antur Bywyd Gwylt

Path Network / Rhwydwaith Ilwybrau

Nant Fawr Trail / Llwybr Nant Fawr













Boat House / Cwchdy

Lighthouse / Goleudy


Cafe / Caffi

Toilet / Toiled

Information Board /
Bwrdd Gwybodaeth



Lighthouse Goleudy




I am the Scott Memorial Lighthouse, a well known landmark in Roath Park Lake. I was built in 1915 in memory of Captain Scott's unlucky expedition to the Antarctic in 1910.

Fi yw Goleudy Coffa Scott. Rwy'n un o dirnodau enwog Parc y Rhath. Cefais fy adeiladu ym 1915 er cof am daith drychinebus y Capten Scott i'r Antarctig ym 1910.

Make rubbing of the Lighthouse here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Goleudy

Mute swan Alarch Mud




Our orange beak with a black base tells us apart from other wild swans. Males are known as cobs and females are known as pens.

Mae ein pigau oren a du yn wahanol i rai elyrch gwyllt eraill. Gelwir y gwrywod yn geiliogod a gelwir y benywod yn alarchesau.

Make rubbing of the Mute swan here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Alarch Mud


Coot Cotiar



We are all black water birds with a white beak and forehead. We are easy to see, often swimming in open water. The saying 'as bald as a coot' comes from our white featherless forehead.

Rydyn ni'n adar du â phig a thalcen gwyn. Mae'n hawdd ein gweld ni, gan ein bod yn hoff o nofio mewn dŵr agored.

Make rubbing of the Coot here
Rhwbwch greon yma i greu llun o'r Gotiar



Cormorant Bilidowcar

I am an expert swimmer, chasing fish underwater. I am often seen standing with my wings held out to dry. Look up at the trees on the island to see me.

Rwy'n nofiwr medrus, ac yn cwrso pysgod o dan y dŵr. Rwy'n aml yn sefyll gyda'm hadenydd wedi'u hestyn allan i sychu. Chwiliwch amdanaf fi yng nghoed yr ynys.

Make rubbing of the Cormorant here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Bilidowcar



Great Spotted Woodpeckers Cnocell Fraith Fwyaf

In spring you may hear us males drumming loudly on trees to attract females. We use our powerful beaks to break bark off trees to get at insects and to open nuts.

Yn ystod y gwanwyn mae'r ceiliogod yn curo'r coed yn uchel i ddenu'r iâr. Maen nhw'n defnyddio eu pig pwerus i dorri rhisgl y coed er mwyn canfod pryfed, ac i agor cnau.

Make rubbing of the Great Spotted Woodpecker here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Cnocell Fraith Fwyaf



Tawny Owl Tylluan Frech

I am a nocturnal bird which means I sleep in the day and come out to find food at night. I like eating mice which I swallow whole! I can't move my eyeballs like you can but I can turn my head almost all the way round so I can see better.

Rwy'n greadur nosol sy'n golygu fy mod i'n cysgu gyda'r dydd ac yn effro yn ystod y nos. Rwy'n hoffi bwyta llygod – rwy'n eu llyncu'n gyfan! Alla i ddim symud kannwyll fy llygaid ond gallaf droi fy mhen yr holl ffordd o gwmpas bron, er mwyn i mi allu gweld yn well.


Make rubbing of the Tawny Owl here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Dylluan Frech



Wild Garlic Garlleg Gwyllt

I am also known as 'ramsons' and carpet the woodland floor with my white flowers in May. I also fill the air with my strong garlic scent.

Rwy'n gorchuddio llawr y goedwig gyda'm blodau gwyn ym mis Mai. Rydw i hefyd yn llenwi'r aer ag aroglau garlleg cryf.




Make rubbing of the Wild Garlic here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Garlleg Gwyllt




Alder Cone Conyn Gwernen

We grow on trees and provide winter food for some birds that use their small beaks to break us open to get to our seeds.

Rydyn ni'n tyfu ar goed a bydd rhai adar yn ein bwyta yn ystod y gaeaf gan ddefnyddio'u pig bach i'n hagar a chael gafael ar ein hadau.




Make rubbing of the Alder Cone here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Conyn Gwernen




Pike Penhwyad

I am easily recognised by my large size, long shape and strong jaws with sharp teeth. My favourite food is fish. See if you can see me hiding in the shallow water.

Mae'n hawdd fy adnabod i. Rwy'n fawr a hir, ac mae gen i enau cryfion a dannedd pigog. Pysgod eraill yw fy hoff fwyd. Allwch chi fy ngweld i'n cuddio yn y dŵr bas?



Make rubbing of the Pike here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Penhwyad




Geese Gwyddau

There are four species of geese on the lake. Look out for greylags, canada, snow and barnacle geese. Please do not feed us bread, we much prefer grain.

Mae pedair rhywogaeth o ŵydd yn byw o amgylch y llyn. Chwiliwch am yr ŵydd wyllt, gŵydd Canada, gŵydd yr eira a'r wyran. Plis peidiwch â rhoi bara i ni – ond mae grawn yn hyfryd!

Make rubbing of the Goose here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Ŵydd




Weeping willow Helygen Wylofus

We are wide trees with curtains of drooping branches that sweep the ground. Our distinctive shape can be seen dotted around the lake edge.

Rydyn ni'n goed llydan â llenni o frigau sy'n hongian hyd y llawr. Gallwch ein gweld ni fan hyn a fan draw ar lannau'r llyn.

Make rubbing of the Weeping willow here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Helygen Wylofus



Rowing boat Cwch rhwyfo

Come along to the boat house where you can hire your own rowing boat. Get up close with swans and geese and enjoy a different view of Roath Park Lake.

Dewch draw i'r cwchdy lle gallwch chi logi eich cwch rhwyfo eich hun. Dewch wyneb yn wyneb ag elyrch a gwyddau a mwynhewch olygfa wahanol o Lyn Parc y Rhath.

Make rubbing of the Rowing boat here
Rhwbiwch greon yma i greu llun o'r Cwch Rhwyfo


Instructions:

There are two Wildlife Explorer Trails in Roath Park. The trail around the Botanical Garden is 1.05 km and the trail around the Lake is 2 km.

Follow the maps inside to find each of the 24 rubbing plaques in and around Roath Park Lake and the Botanical Garden. Each location has a rubbing plaque with a picture of a plant, animal or feature you might see in and around Roath Park Lake and the Botanical Garden. Once you find the plaque, match the picture in the box in the booklet to the picture on the plaque.

- Place the page over the plaque
- Hold the paper firmly in place, then using a coloured pencil or crayon, rub over the top
- Lift the paper off and see the picture revealed
- Read the fun facts about this picture
- Continue around the park to find all 24 plaques

HAVE FUN!



For information about Parks please contact:

Tel: 029 22330235, Email: parks@cardiff.gov.uk or visit www.cardiff.gov.uk/parks

For information about walks and other things to do in Cardiff's countryside please contact:
www.outdoorcardiff.com

Cyfarwyddiadau:

Mae dau Lwybr Antur Bywyd Gwyllt ym Mharc y Rhath. Mae'r llwybr o amgylch yr Ardd Fotaneg yn 1.05km o hyd ac mae'r llwybr o amgylch y llyn yn 2km.

Dilynwch y mapiau i ddod o hyd i bob un o'r 24 o blaciau rhwbio o amgylch Llyn Parc y Rhath a'r Ardd Fotaneg. Mae plac rhwbio ym mhob lleoliad, gyda llun o blanhigyn, anifail neu nodwedd sydd i'w gweld o amgylch Llyn Parc y Rhath a'r Ardd Fotaneg. Ar ôl i chi ddod o hyd i'r plac, parwch lun o'r llyfryn â'r llun ar y plac.

- Rhowch y dudalen dros y plac
- Daliwch y papur yn ei le a rhwbiwch greon arno
- Codwch y papur i weld y llun rydych chi wedi'i greu
- Darllenwch y ffeithiau difyr am y llun
- Crwydrwch y parc cyfan i ddod o hyd i bob un o'r 24 plac

MWYNHEWCH!



I gael rhagor o wybodaeth am y Parciau

cysylltwch â: Ffôn: 029 22330235 E-bost: parciau@caerdydd.gov.uk neu ewch i www.caerdydd.gov.uk/parciau

I gael rhagor o wybodaeth am deithiau cerdded a phethau eraill i'w gwneud yng nghefn gwlad Caerdydd cysylltwch â:

www.caerdyddawyragored.com